Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CANLYNIAD

MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	***Richard Thomas***	**Rhif P y myfyriwr:**	***1700330***
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	**Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion**	**Lefel y Modwl (6 neu 7):***	**7**
Cod y modwl:*	**M7X02153-C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):***	**70%**
Arweinydd modwl:*	**Helen Lewis/ Gail Parker/ Rachel Wallis**		
Teitl yr Aseiniad:	**Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau**	**Rhif yr Aseiniad (x o x):***	**1/2**
Dyddiad cychwyn:*	**5.3.18**	**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:***	**30.5.18**
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*			

Cyfeirnodi:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnodi i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, teitl y llyfr, argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	**Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol.** **Sylwer:** y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. **Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr** Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	**Dyddiad:**	

Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.	**IE**	
	NA	**√**

Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf

Rhif Myfyriwr: 1700330

Modiwl: M7X02153-C

Nifer o eiriau: 4069

Cyflwyniad

Nod y traethawd yma yw rhoi ffocws ar un plentyn a'i datblygiad cyfannol, gan feddwl am ffyrdd ymlaen o gyfoethogi ei dysgu yn yr ysgol. Dewiswyd y plentyn ar ôl gweithio mewn ysgol ar gyfer Profiad Addysgu Proffesiynol yn Abertawe. Mae'r ysgol yn un eithaf mawr ei faint, gyda 304 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 9 dosbarth, gan gynnwys 49 o ddisgyblion meithrin rhan- amser. Mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae gan 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod y Profiad Addysgu Proffesiynol, rydw i wedi bod yn addysgu mewn dosbarth Blwyddyn 3. Mae 26 plentyn yn y dosbarth a welwyd ystod eang o anghenion; plant sydd yn cyflwyno gwaith ar Lefel 1, hyd at blant academaidd iawn sydd angen heriau ychwanegol yn y gwersi.

Trafodais gyda'r athro dosbarth, a phenderfynon ni ar unigolyn y byddaf yn cyfeirio ati fel *Plentyn A*. Mae ganddi dau declyn clyw, ac roedd gen i ddiddordeb i ddarganfod sut oedd hyn yn effeithio ar *Blentyn A* yn yr ysgol, os o gwbl. Mae hi'n ferch greadigol iawn, ac o fewn y dosbarth mae *Plentyn A* yn y grŵp a elwir yn *Grŵp Lluosi*. Dyma grŵp o blant sydd yn gyffredinol yn cyrraedd y lefelau cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer Blwyddyn 3, sef Lefel 3.

O fewn cyd-destun ysgol mae'n gyffredin i gasglu amryw o wybodaeth i greu darlun o blentyn. Gall y rhain bod yn esiamplau o waith, gweithgareddau allgyrsiol, neu sgiliau cymdeithasol. Yn achos yr aseiniad yma, penderfynwyd defnyddio dull o gasglu data a gelwir yn *ddull mosaig*. Mae mewnwelediad a llais plant yn bethau hanfodol o bwysig erbyn heddiw er mwyn iddynt gymryd rheolaeth dros eu haddysg a dysgu (Estyn, 2016). Datblygwyd y dull mosaig i adlewyrchu pwysigrwydd safbwynt y plentyn wrth gynnal ymchwil. Drwy ddefnyddio'r dull yma, ceir darlun a mewnwelediad mwy cyflawn o brofiadau'r plant o fod mewn sefydliadau addysgiadol (Clark a Moss, 2011).

Gellir cysylltu'r cysyniad o rôl yr amgylchedd ar ddatblygiad plentyn i waith Jean Piaget a'i ddamcaniaethau o *Adeileddiaeth*. Pwysleisiodd bod plant yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd drwy weithredu gyda'u hamgylchedd. Wrth drafod hyn gyda'r plentyn, mae'n cysylltu gyda gwaith Vygotsky ac *Adeileddiaeth Gymdeithasol*, sy'n rhoi pwyslais cymdeithasol ar ddysgu (Denby, 2015).

Mae Clark a Moss (2011) yn adnabod tri cham i greu'r dull mosaig. Y cam cyntaf yw i'r plant a'r oedolion casglu gwybodaeth a dogfennau. Yn ail dylid crynhoi'r wybodaeth ar gyfer dialog, adlewyrchiad a dadansoddiad. Yn trydydd dylid penderfynu ar y dilyniad neu newidiadau sy'n deillio o'r wybodaeth a gasglwyd. Dyma'r camau bydd yn ffocws trwy gydol y traethawd.

Cam 1: Casglu gwybodaeth

Mae'r cam cyntaf, sef y casgliad o ddogfennau a gwybodaeth berthnasol yn cyfrannu at adeiladu darnau o'r *mosaig*. Yn gyntaf dylai'r ymchwilwyr cynnal arsylwadau o'r plentyn mewn amryw o amgylcheddau'r ysgol. Mae'n angenrheidiol bod yr ymchwilydd yn gwylio sut bod y cyfranogwr yn ymddwyn ac yn ymateb yn yr amgylchedd naturiol, yn yr achos yma'r ystafell dosbarth neu ardaloedd yr ysgol. Wrth ddefnyddio dulliau arsylwi, gellir gweld ymddygiad mwy naturiol o fewn cyd-destun naturiol, sef yr ystafell dosbarth (Grigg, 2015).

Yn ystod fy wythnos gyntaf o fod yn yr ystafell dosbarth, arsylwais ar *Blentyn A*. Yn benodol arsylwais ar le'r oedd hi'n eistedd ar y carped, lle'r oedd hi'n eistedd wrth wneud gwaith, a phwy oedd hi'n dueddol o eistedd gyda. Hefyd arsylwais ar y ffordd ei bod hi'n gweithio; ydy hi'n weithiwr cydwybodol neu ydy hi'n hoff o drafod? Pa adnoddau ydy hi'n defnyddio?

Dydy'r defnydd o ddulliau arsylwi a chadw nodiadau maes yn unig ddim yn ffordd ddibynadwy o greu darlun am blentyn. Mae amryw o gyfyngiadau i nodiadau maes a dulliau arsylwi. Wrth arsylwi, dim ond ymddygiad gweladwy sy'n medru cael ei fesur. Does dim ffordd o wybod gwir agweddau a chymelliadau'r plentyn, ac roedd yn bwysig nid oedd hi'n ymwybodol fy mod i'n ei harsylwi rhag ofn iddi newid ei hymddygiad. Hefyd mae'r nodiadau sy'n cael eu cadw gan yr arsylwr yn gyffredinol dim ond yn berthnasol i'r arsylwr. Gall y fath o bethau a ysgrifennir newid o berson i berson, yn dibynnu ar bwy sy'n arsylwi. Mae'n angenrheidiol felly, er mwyn adeiladu darlun cyfannol o *Blentyn A*, i gael ei mewnwelediad hi i roi'r arsylwadau mewn cyd-destun mwy cyflawn.

Darn arall hollbwysig o'r cam casglu data felly yw'r cynadledda plentyn. Dyma fframwaith mwy ffurfiol o gasglu gwybodaeth am y plentyn, drwy gynnal ryw fath o gyfweliad ac i ofyn amryw o gwestiynau. Trwy gynnal cyfweliad neu gynhadledd gyda'r plentyn, gellir darganfod amryw o wybodaeth efallai na fyddai'n amlwg wrth arsylwi. Gall y rhain bod yn pwy maent yn hoffi neu ddim yn hoffi, ei chredoau am rôl yr oedolion, a'i hoff lefydd neu weithgareddau yn yr ysgol. Yn yr ymchwil yma addaswyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd gan Clark a Moss (2011). Gweler atodiad 1 ar gyfer enghreifftiau o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd.

Mae rhaid meddwl am amryw o elfennau wrth ddadansoddi'r hyn a ddwedwyd mewn cyfweliad. Barn y plentyn a nodwyd, nid ffeithiau. Er bod barn a mewnwelediad y plentyn yn hanfodol, does dim ffordd o wybod os ydynt yn dweud y gwir. Gofynnwyd y cwestiynau yn yr ystafell dosbarth, felly gall bod dylanwad eu ffrindiau bod wedi chwarae rhan yn ei hatebion, neu efallai wnaeth *Plentyn A* ymateb gydag atebion i geisio plesio'r ymchwiliwr. Er hyn, os

ydy'r ymchwilir yn ymwybodol o'r duedd yma, mae holi'r plentyn yn medru rhoi nodiadau'r arsylwr mewn gwell cyd-destun.


Ar ben hyn, siaradais yn fanwl gyda'r athro dosbarth am *Blentyn A* er mwyn cael ei fewnwelediad ef am ei gwaith ac agwedd hi trwy gydol y flwyddyn. Roeddwn i'n lwcus i gwrdd â'i mam hi ar drip ysgol. Cawson ni sgwrs anffurfiol, ac roedd hyn yn ychwanegu haen arall o fewnwelediad i *Blentyn A*. Rydw i wedi cadw nodiadau wrth farcio gwaith *Plentyn A*, ac wedi edrych yn ôl trwy'r gwaith a chyflawnwyd cyn i mi ddod i'r ysgol.

Wrth gynnal unrhyw fath o ymchwil mae rhaid ystyried materion moesegol, i'r cyfranogwyr ac i'r ymchwilwyr. Roeddwn i'n gyfarwydd gyda chanllawiau'r brifysgol (Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, 2016) ar ôl cynnal darn o ymchwil yn flaenorol. Trafodais y fath o wybodaeth byddai'n eu casglu gyda'r athro dosbarth, ac er nid oedd angen, trafodais gyda rhiant *Plentyn A* hefyd. Gweler atodiad 2 ar gyfer llythyr caniatâd wedi ei arwyddo gan yr athro dosbarth.

Ni ddisgwyliwyd unrhyw ofid emosiynol oherwydd roedd yr ymchwil yn cael ei gynnal mewn modd a chyd-destun hollol naturiol. Er hyn, gall y cwestiynu a'r ffocws ar *Blentyn A* rhoi pwysau arni, a gallai wedi gofidio dros ateb cwestiynau a *bod yn gywir.* Roedd yn bwysig felly i fod yn agored gyda *Phlentyn A* ac i bwysleisio taw ei barn a phrofiadau hi oedd yn bwysig, a doedd dim atebion cywir neu anghywir.

Cam 2: Dadansoddiad

Mae Clark a Moss (2011) yn awgrymu ar ôl casglu'r data, mae'n rhaid crynhoi'r wybodaeth, cyn adlewyrchu a'i ddadansoddi. Er mwyn gwneud hyn mewn modd systematig ac effeithiol, byddaf yn defnyddio'r model *ASG* (Agweddau, Sgiliau, Gwybodaeth) a ddisgrifiwyd gan Nottingham (2013). Cysylltodd y model gyda gwaith Vygotsky, yn pwysleisio bod plant yn dysgu mewn modd cymdeithasol a thrwy eraill. Yn benodol, mae'r *agweddau* y mae plant yn eu dysgu o eraill yn hollbwysig i ddatblygu sgiliau, sydd wedyn yn datblygu gwybodaeth plant. Gweler ffigwr 1.



Ffigwr 1. Addasiad o fodel ASG gan Nottingham (2013).

Wrth arsylwi yn gyffredinol, mae'n amlwg ei bod yn ferch hapus a chyfeillgar. Mae ganddi grŵp o 4-5 merch mae'n hoff o eistedd gydag ar y carpet ac yn chwarae gydag ar y buarth. Mae'n ddiddorol i nodi o fewn y dosbarth, mae *Plentyn A* mewn grŵp ar wahân i'w ffrindiau. Mae *Plentyn A* mewn *Grŵp Lluosi*, sy'n cynrychioli plant sydd yn gyffredinol yn cyrraedd amcanion disgwyliedig Blwyddyn 3. Mae ei ffrindiau agos mewn grwpiau *Adio*, a *Tynnu*, sydd yn cynrychioli plant sydd yn gyffredinol yn cyrraedd amcanion llai na'r rheini sy'n ddisgwyliedig am blant Blwyddyn 3. Er bod *Plentyn A* yn eithaf swil ac yn dawel ei natur, tra ar y carped mae hi'n eithaf siaradus gyda'i ffrindiau ac mae'r merched yn hoff o chwarae gyda gwallt ei gilydd.

Wrth drafod gyda *Phlentyn A*, roedd yn amlwg taw ei hoff beth i wneud yn yr ysgol a gartref oedd darllen, yn benodol llyfrau Saesneg. Roedd hi yng nghanol darllen llyfr *Horrid Henry* wrth i mi gyfweld â hi. Mae ei hagwedd tuag at ddarllen yn cael ei adlewyrchu yn ei hagwedd tuag at wersi Llythrennedd ac ysgrifennu yn y dosbarth. Yn ei gwaith Cymraeg mae hi'n medru sillafu y rhan fwyaf o eiriau cyffredin yn gywir ac yn ymgeisio geiriau anghyffredin er ei bod yn cymysgu *"y", "u" ac "i"* (er enghraifft, *"dryngo", "llyn"*, yn lle *"llun"*). Mae hi'n medru treiglo'n gyffredinol yn gywir ar ôl *"yn"* ac yn medru treiglo'n drwynol yn gywir. Mae ei hiaith ysgrifenedig a llafar yn aeddfed ei natur hefyd, gan ysgrifennu mewn modd Cymraeg cywir. Er enghraifft, gweler atodiad 3, (*"Mae gan...", "gallu ei weld").* Cyn dechrau'r thema *Y Goedwig*

Wyllt ofynnwyd i'r plant ysgrifennu cwestiynau am yr hyn hoffent eu gwybod. Aeth *Plentyn A* ati i ysgrifennu cyfres o gwestiynau ag oedd yn gyffredinol yn ieithyddol cywir, ond hefyd cwestiynau diddorol. Gweler atodiad 4, er enghraifft *"**Sut ydy** cwningen gallu neidio yn uchel?"*.

Wrth arsylwi a thrafod gyda *Phlentyn A*, dwedodd bod ei hoff le i eistedd oedd ar gornel ei bwrdd oherwydd ei bod hi'n agos i'r wal *Geirio Gwych* (neu yn Saesneg y wal *Big Write*). Mae hyn yn amlwg wrth edrych ar ei gwaith ysgrifennu, gan ei bod yn aml yn defnyddio gwefreiriau a'r holl nodweddion a gwelir arno. Gweler atodiad 12.

Addysgais gyfres o wersi yn adeiladu lan at ysgrifennu cerdd. Roedd *Plentyn A* yn medru meddwl am ansoddeiriau da, gan nodi sawl sillaf oedd ym mhob gair. Roedd hi'n medru hefyd meddwl am amryw o eiriau sy'n odli (gweler atodiad 5a). Gosodais dwy dasg ar gyfer ysgrifennu'r gerdd; roedd un daflen gyda thempled cerdd i'w llenwi, ac roedd cyfle i ysgrifennu cerdd acrostig gan ddefnyddio *COEDWIG*. Ysgrifennodd *Plentyn A*'r ddau, gweler atodiadau 5b a 5c. Er y templed, defnyddiodd ei dychymig i ehangu arno mewn modd creadigol. Un peth tynnais sylw ati oedd ei defnydd amrywiol o odli; yn gyffredinol roedd plant yn rhoi'r geiriau odli ar ddiwedd y llinellau, ond rhoddodd *Plentyn A* odlau yng nghanol y llinellau. Er enghraifft, "*cant o plant"* a *"anifeiliaid mawr ar y llawr".*

Mae ei hagwedd awyddus a'i hoffter o ddarllen llyfrau Saesneg yn cael ei adlewyrchu yn ei gwaith ysgrifenedig Saesneg hefyd. Mae ganddi ddealltwriaeth gref o nodweddion megis adferfau a chyffelybiaethau. Gwelir y rhain yn amlwg yn ei gwaith paratoi at ysgrifennu portread o *Aunt Sponge* ac *Aunt Spiker* o *James and the Giant Peach*. Gweler atodiad 6. Defnyddiodd y Meini Prawf Llwyddiant yn effeithiol gan gofio cynnwys yr amryw o nodweddion yn ei hysgrifennu, megis gwefreiriau, agoriadau, cysyllteiriau ac ebychnodau. Yn aml gwelir ei bod hi'n camsillafu geiriau dylai fod yn gyfarwydd o fewn y cyd-destun, megis *Aunt Spiker* (*"Aunt Spicker"*), ac yn cymysgu geiriau cyffredin megis *"where"* a *"were".* Yn debyg i'r Gymraeg, mae hi hefyd yn ysgrifennu geiriau yn eithaf seinegol (*"horrable"*). Er y rhain, mae safon ei gwaith Llythrennedd yn ddeniadol iawn i'r darllenydd ac mae hi'n greadigol iawn yn ei gwaith.

Ar ôl cynnal cyfweliad gyda *Phlentyn A*, roedd ei hagwedd tuag at Fathemateg yn amlwg. Nid oedd hi'n ei hoffi. Roedd ei hagwedd yn un hollol wahanol i'w hagwedd tuag at Lythrennedd. Dwedodd ei fod yn dibynnu ar y fath o waith, ond roedd hi'n ffeindio *"adio, tynnu, lluosi a rhannu yn anodd".* Mae ganddynt dau lyfr Mathemateg; *llyfr Data a Siâp* a *llyfr Mathemateg*. Doedd hi ddim yn casáu gwaith Data a Siâp yn yr un ffordd, ond roedd Mathemateg yn gyffredinol yn rhywbeth nid oedd hi'n hoff iawn o.

Er hyn, mae ganddi'r gallu i ddefnyddio sgiliau rhif yn eithaf cywir. Er enghraifft, yn atodiadau 7a a 7b gweler enghreifftiau o adio a thynnu mewn colofnau, a hefyd dosrannu rhifau. Mae hefyd wedi gallu rhannu rhifau gyda 10, gyda 5, ac i rannu rhifau sy'n rhoi gweddill. Os gweler atodiadau 8a ac 8b, mae wedi dangos ei bod yn deall ffracsiynau o ½, ¼ a hyd yn oed rhai mwy cymhleth. Dyma'r gwaith ag oedd yn ei *llyfr Mathemateg* cyn i mi ddechrau addysgu. Yn y llyfr yma rydw i wedi addysgu sut darganfod newid o ddarnau arian. Erbyn Blwyddyn 3 mae'n ddisgwyliedig y gallent ddarganfod newid hyd at £2. Roedd hi'n medru darganfod newid o ddarnau £1 yn hawdd, gan ddefnyddio dulliau cyfri ymlaen. Er hyn, nid oedd *Plentyn A* wedi deall sut i drawsnewid yr un sgil ar gyfer darnau £2. Os edrychir ar atodiad 9, roedd hi wedi ychwanegu £1. o flaen bob ateb. Hefyd, defnyddiodd hi ffeithiau rhif o fondiau 10 i gyfri ymlaen; yn yr achos yma roedd yr atebion felly bob tro 10c yn anghywir. Er enghraifft, wrth ddarganfod newid o £1.58, defnyddiodd ei gwybodaeth bod 50c + 50c yn gwneud £1, a'i gwybodaeth bod 8 + 2 yn gwneud 10 i roi'r ateb o £1.52, yn lle 42c.

Nodwedd arall mae *Plentyn A* wedi ffeindio'n anodd yn ei *llyfr Mathemateg* oedd amser, ac echdynnu a dehongli gwybodaeth amserlen. Yn benodol, ffeindiodd hi gyfri amser (er enghraifft, *"Faint o amser mae trên A yn ei gymryd?".* Gweler atodiad 10).

Wrth edrych yn ei *llyfr Data a Siâp* mae darlun gwahanol am ei gallu mathemategol. Mae ganddi ddealltwriaeth gref o adnabod a chategoreiddio trionglau, sgwariau, petryalau, pentagonau a hecsagonau, gan gynnwys siapiau afreolaidd. Roedd hi'n medru dangos dealltwriaeth o'r rhain, a'i gwybodaeth o dablau, gan ddefnyddio diagram Carroll (gweler atodiadau 11a, 11b ac 11c).

Roeddwn i hefyd yn awyddus i gasglu gwybodaeth ar les *Plentyn A*. Wrth arsylwi arni yn y dosbarth, mae'n ymddangos yn berson hapus a chyfeillgar iawn. Roeddwn i'n ffodus i gael siarad gyda Mam *Plentyn A* ar drip ysgol, a ddwedodd ei bod hi weithiau yn poeni os yw ei phlentyn hi'n hapus yn yr ysgol. Roedd Mam yn poeni am y ffordd gall y teclynnau clyw amharu ar ei sgiliau cymdeithasol. Er hyn, dwedodd wrthyf nid ydynt wedi sylwi ar unrhyw beth o'i le. Doeddwn i heb arsylwi unrhyw ymddygiad neu ymateb negyddol i'w theclynnau clyw, ond arsylwais rywbeth ar y ffordd roedd hi'n ymateb yn y dosbarth. O bryd i'w gilydd byddai'r athro yn torri ar draws y plant yn gweithio i gyhoeddi rhywbeth neu i ddarllen esiamplau o waith da. Yn gyffredinol byddai'r plant yn edrych i fyny ac yn stopio gweithio, ond nid *Plentyn A*. Byddai *Plentyn A* yn parhau i weithio am ychydig o amser yn fwy na gweddill y plant. Gall hyn naill ai fod oherwydd ei bod hi'n hollol ynghlwm yn ei gwaith, neu oherwydd natur ei phroblemau clyw.

Dywed Mam bod *Plentyn A* yn siarad yn ddi-stop yn y tŷ am ei ffrindiau ysgol, a hyd yn oed yn ysgrifennu storiâu amdanyn nhw yn mynd ar anturiau gyda'i gilydd. Yr wythnos cyn hanner tymor, dechreuodd yr ysgol defnyddio'r gwefan *Speakr.* Dyma wefan sy'n helpu plant i fedru ynganu sut y maent yn teimlo yn yr ysgol, ac mae'n ffordd o athrawon medru gweld pa blant fyddai angen cymorth emosiynol ychwanegol o ddydd i ddydd. Ni chefais y cyfle i gasglu gwybodaeth ohoni, ond dangosodd yr athro i mi cofnodion *Plentyn A* am yr wythnos. Bob dydd roedd hi naill ai wedi cofnodi ei theimladau fel *Happy* neu *Silly*, felly mae ei lles yn yr ysgol yn amlwg o safon uchel. Ar ôl siarad gyda hi hefyd, dwedodd ei fod yn hapus yn yr ysgol, ac roedd hi'n hoffi Blwyddyn 3.

<u>Cam 3: Ffordd ymlaen a chasgliadau</u>

Yn ôl Moss a Clark (2011), y trydydd cam o'r dull mosaig yw penderfynu ar unrhyw ddilyniad neu newidiadau sy'n deillio o'r wybodaeth a gasglwyd.

Gwnaeth Crandell a Smaldino (2000) ymchwil ar amgylchedd acwstig o fewn ystafelloedd dosbarth. Darganfyddwn nhw ei fod yn nodwedd hollbwysig wrth ystyried cyrhaeddiad academaidd, addysgiadol a chymdeithasol yn yr ystafell dosbarth. Mae'n hollbwysig felly i gadw hyn mewn cof wrth addysgu plentyn fel *Plentyn A*, gyda theclyn clyw. Mae sŵn cefndirol, pellter rhwng yr athro a'r plentyn, a'r perthynas rhwng llais yr athro yn erbyn y sŵn cefndirol i gyd yn chwarae rhan. Gall sŵn cefndirol dod o blant yn y dosbarth yn siarad, symud cadeiriau neu fyrddau, ond hefyd synau tu allan i'r dosbarth. Yn gyferbyn i'r ystafell Blwyddyn 3 mae'r llyfrgell. Yn y llyfrgell mae plant yn cael gwersi cerddoriaeth megis gwersi telyn a'r ffidl a gellir clywed y gerddoriaeth yn y dosbarth. Mae *Plentyn A* yn eistedd yn agos at y drws oherwydd dyna ble mae *Grŵp Lluosi* yn eistedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, os mae *Plentyn A* yn eistedd ar y bwrdd yn gweithio a bod yr athro yn cyhoeddi rhywbeth i'r dosbarth, dydy hi ddim bob tro yn edrych i fyny fel pawb arall. Fel ffordd ymlaen byddaf yn ystyriol o hyn. Hefyd, os ydy *Plentyn A* yn rhoi caniatâd, efallai bydd yn werth addysgu'r plant yn y dosbarth am sut gall gormod o sŵn effeithio ar ei chlyw. Byddai rhyw fath o wers ryngweithiol gan ddefnyddio adnoddau megis clustffonau bod yn ffordd hwyl o addysgu'r plant i fod yn ymwybodol o anghenion *Plentyn A.*

Fel y nodwyd yn flaenorol, yng ngwersi Mathemateg mae *Plentyn A* yn ffeindio cyfri ymlaen i ddarganfod newid yn heriol. Mae ganddi'r sgiliau craidd, ond mae ei thechneg yn anghywir. Un peth sylweddolais yw nid oedd hi'n defnyddio unrhyw adnoddau i'w helpu yng ngwersi Mathemateg. Mae amryw o adnoddau yn y dosbarth, megis *Numicon* a llinellau rhif. Mae *Numicon* yn adnodd da ar gyfer gwneud rhifau yn fwy gweledol yn lle bod yn gysyniadau haniaethol. Mae'n

ffordd dda o weld gwahaniaeth amlwg rhwng odrifau ac eilrifau, ac yn ffordd weledol o gysylltu bondiau rhif. Yn ôl adolygiad gan Williams (2008), gwelodd cynnydd arwyddocaol mewn lefelau profion cenedlaethol Rhifedd mewn ysgolion ar ôl cyflwyno *Numicon* iddynt. Byddai'r rhain, ochr yn ochr gyda llinell rhif yn ffordd dda o wneud y cysyniadau rhifedd yn fwy gweledol a rhyngweithiol iddi. Fel ffordd ymlaen felly byddaf yn rhoi mwy o bwyslais ar y defnydd o adnoddau mathemategol yn y gwersi.

Agwedd arall ffeindiodd *Plentyn A* yn anodd oedd amser, yn benodol dehongli gwybodaeth o amserlen a darganfod pa mor hir mae rhywbeth yn para gan ddefnyddio cyfnodau awr, 30 munud a 15 munud. Gwelais yr un camgymeriadau gyda llawer o'r plant yn yr achos yma, felly mae'n rhywbeth rydw i'n awyddus i adolygu fel dosbarth. Maent yn gallu darllen yr amser ar gloc, rhai i'r funud. Er hyn, mewn cyd-destun ychydig yn wahanol mae'r cysyniadau o amser yn newid. Fel ffordd ymlaen byddaf yn creu amserlen weledol i'r plant i'w ddefnyddio yn y dosbarth. Efallai byddaf yn dewis swyddog amserlen bob dydd, gan roi ffocws ar y rhai a ffeindiodd y gwaith yn anodd. Byddaf wedyn yn cyflwyno gwersi ychwanegol ar sut i ddarllen amserlen, a sut i gyfri gydag amser. Byddaf hefyd yn ymchwilio am gemau rhyngweithiol ar-lein. Gobeithiaf bydd y cyflwyniad o amser mewn amryw o gyd-destunau yn cynorthwyo'r plant i ddeall y sgiliau.

Fel ffordd ymlaen gyffredinol ar gyfer Mathemateg, byddaf yn awyddus i wneud y plant yn fwy ymwybodol o ba sgiliau maent yn dysgu a beth sydd angen ymarfer. Gall hyn bod yn ffordd effeithiol o Asesu ar Gyfer Dysgu. Er enghraifft, rydw i wedi gweld mewn ysgolion eraill bod gan y plant rhyw fath o restr ar flaen eu llyfrau gyda lle i dicio bob sgil maent wedi cyflawni. Ar ôl dangos tystiolaeth o'r sgil dwywaith, maent yn symud i lefel uwch. Efallai ni fyddai hyn yn hollol addas ar gyfer yr ysgol yma, ac mae'n anodd cyflawni'r fath awgrymiadau fel myfyriwr. Er hyn, o ran Asesu ar Gyfer Dysgu, byddaf yn awyddus i roi'r cyfle i blant dangos pa sgiliau maent wedi cyrraedd a pha sgiliau sydd angen ymarfer. Yn ddelfrydol, gellir cynnal diwrnod Mathemateg, gydag amryw o weithgareddau yn cyfnewid trwy gydol y dydd yn rhoi ffocws ar y sgiliau gwahanol sydd angen eu hymarfer. Gall y plant dewis y sgiliau neu'r gweithgareddau, a gall rhai hyd yn oed addysgu neu gynnal y gweithgaredd. Mae ymchwil yn dangos bod plant yn addysgu ei gilydd yn ffordd dda o atgyfnerthu sgiliau (Grigg, 2015). Byddai hyn hefyd yn ffordd o blant yn arwain eu dysgu eu hunain, sydd yn hollbwysig (Estyn, 2016) mewn modd hwyl.

O ran gwaith Llythrennedd *Plentyn A*, mae ei gwaith o safon uchel yn gyffredinol. Yn gyson mae hi'n defnyddio'r wal *Geirio Gwych* i gyfoethogi ei gwaith gydag amryw o wefreiriau, cysyllteiriau ac atalnodi. Er hyn, mae ei sillafu yn gallu bod yn anghyson ac mae'n defnyddio dulliau seinegol. Fel ffordd ymlaen felly byddaf yn sicrhau ei bod hi'n gwybod sut i ddefnyddio geiriadur, neu i ddefnyddio matiau geirfa sydd ar gael yn y dosbarth. Yn gyffredinol bydd yn

fuddiol i bawb yn y dosbarth i mi roi mwy o bwyslais ar yr adnoddau sydd yn y dosbarth, boed yn fathemategol neu yn ieithyddol.

Does gen i neu'r athro dosbarth unrhyw ofidion am les *Plentyn A*. Mae'r gwefan *Speakr* yn newydd i'r ysgol, ond maent yn bwriadu ei ddefnyddio'n ddyddiol i dracio emosiynau a lles y plant. Rydw i eisiau felly cymryd mwy o gyfrifoldeb rhagweithiol yn cadw golwg ar gofnodion *Speakr* y plant. Mae'n rhoi'r cyfle i blant ceisio adnabod eu hemosiynau'n well, ac i ehangu ar pam eu bod yn teimlo fel y maent. Er bod *Plentyn A* yn gyffredinol yn blentyn hapus a chyfeillgar iawn, rydw i yn bwriadu sicrhau fy mod i'n edrych ar *Speakr* bob dydd er mwyn gweld os oes unrhyw batrymau.

Rydw i'n hoff iawn o *Amser Cylch* hefyd fel ffordd o rannu problemau, emosiynau a theimladau. Cynhaliwyd ymchwil gan Cefai et al. (2013) yn edrych ar effeithiau *Amser Cylch* ar ddatblygiad a dysgu emosiynol o fewn ysgolion cynradd. O fewn amser, ar ôl defnyddio *Amser Cylch* yn gyson o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd, gwelwyd cynnydd mewn plant yn mynegi eu teimladau, llai o broblemau ymddygiadol a mwy o ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol. Felly, er does dim o reidrwydd unrhyw broblemau ymddygiadol neu emosiynol yn amlwg yn y dosbarth, byddai'n ffordd o ddatblygu lles y plant mewn amryw o ffyrdd.

Wrth ddod i gasgliad, mae'n ddiddorol i mi edrych nôl ar beth rydw i wedi dysgu wrth ymchwilio'r aseiniad yma. Mae wedi bod yn brofiad diddorol a defnyddiol i edrych mor fanwl ar unigolyn. Fel myfyriwr a ddarpar athro, anaml mae gennym y cyfle i wneud hyn. Mae'r cyfle i roi gymaint o ffocws ar bob darn o waith eto yn rhywbeth sydd yn anodd gwneud fel darpar athro. Er hyn, mae'r ymchwil a'r aseiniad yma wedi gwneud i mi feddwl yn fanwl a dadansoddi beth yn union mae'r gwaith plant yn dangos amdanyn nhw fel unigolion. Mae wedi bod yn ffordd dda o ddadansoddi camgymeriadau cyffredin, yng ngwaith Mathemateg a Llythrennedd.

Rydw i wedi bod yn defnyddio dulliau Asesu ar Gyfer Dysgu'r ysgol o fewn y dosbarth, megis bodiau i fyny a Meini Prawf Llwyddiant. Rydw i nawr am geisio defnyddio'r rhain yn fwy effeithiol ac i'w ddatblygu'n fwy try gydol y gwersi. Fel myfyriwr, mae'n broses anodd i wybod yn union beth mae'r plant wedi dysgu yn barod a pha sgiliau maent wedi datblygu cyn i mi gyrraedd yr ysgol. Felly rydw i'n edrych ymlaen at wella fy sgiliau Asesu ar Gyfer Dysgu er mwyn deall yn fwy pa wendidau a pha fylchau sydd yna i ymarfer.

Wrth gyflawni'r aseiniad yma rydw i wedi sylweddoli, yn gyffredinol, nid wyf wedi bod yn meddwl yn ddigon manwl am waith y plant ac yn dadansoddi'r hyn maent wedi cyflwyno i mi. Edrychaf ymlaen felly i wella hyn, rhywbeth a fyddai'n haws wrth i mi addysgu yn nosbarth fy hunain. Mae amryw eang o ffactorau i feddwl amdani o fewn yr ystafell dosbarth a'r ysgol gyfan.

Mae pethau amlwg megis safon gwaith, ond mae'n hollbwysig i feddwl am beth sy'n effeithio ar safon gwaith. Rydw i wedi gweld erbyn hyn y pwysigrwydd o amgylcheddau dysgu, megis y wal *Geirio Gwych*, ac effaith o'r diffyg defnydd o adnoddau yn y dosbarth. Drwy ymchwilio'r holl bethau yma, a drwy greu darlun cyfannol o *Blentyn A*, mae gen i ysbrydoliaeth i barhau i wella pob agwedd o addysgeg.

Cyfeirnodau

Cefai, C. et al., (2013). '*Circle time for social and emotional learning in primary school.'* Pastoral Care in Education. 32 (2). Ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02643944.2013.861506?scroll=top&needAccess=true

[Darllenwyd: 29 Mai 2018]

Clark, A. a Moss, P. (2011). Ail argraffiad. *Listening to Young Children: The Mosaic Approach.* Llundain: National Children's Bureau, [e-lyfr]. Ar gael yn : https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/readonline/9781907969423

Crandell, C. C., a Smaldino, J. J. (2000). Classroom Acoustics for Children With Normal Hearing and With Hearing Impairment. *Language, Speech, and Hearing Services in Schools.* 31: tud 362-370.

Denby, N. (2015) Trydydd argraffiad. *Training to Teach: A Guide for Students*. Llundain: Sage.

Estyn (2016) *'Llais y disgybl o fudd i ddisgyblion ac yn helpu ysgolion i wella'*. Ar gael

yn: https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/%E2%80%98llais-y-disgybl%E2%80%99-o-fudd-i-ddisgyblion-ac-yn-helpu-ysgolion-i-wella?_ga=2.41622434.1017148843.1523638183-1793500967.1505158727

[Darllenwyd: 29 Mai 2018]

Grigg (2015). Ail argraffiad. *Becoming an outstanding primary school teacher*. Llundain: Routledge.

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning.* Oxon: Routledge. Ar gael yn: https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/abstract/9780203559079

[Darllenwyd: 29 Mai 2018]

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, (2016). '*Research Data Management Policy*'. Ar gael yn: http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content- assets/documents/strategies-policies/Research-Data-Management-Policy-2.01.16.pdf

[Darllenwyd: 29 Mai 2018]

Williams, P. (2008). Independent Review of Mathematics Teaching in Early Years Settings and Primary Schools. *Department for Children, Schools and Families.* Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/8365/7/Williams%20Mathematics_Redacted.pdf

[Darllenwyd: 29 Mai 2018]

Atodiad 1 – Cwestiynau i'r plentyn

Pam wyt ti'n dod i'r ysgol?

Gwaith

Dysgu

Beth wyt ti'n hoffi gwneud yn yr ysgol?

Chwarae gyda ffrindiau

Ysgrifennu – storïau

Celf

Darllen

} gartref hefyd – ysgrifennu storïau

Beth dwyt ti ddim yn hoffi am fod yn yr ysgol?

Maths – adio a tynnu yn arnodd

Siapiau yn iawn

Ble mae dy hoff le yn yr ysgol?

Buarth – ardal chwarae

Yn y dosbarth – ei chadair hi – ar bwys Cleio Gwyn

– Cornel darllen

Ble dwyt ti ddim yn hoffi yn yr ysgol?

Neuadd – bwyta iawn – cinio – swllyd iawn

Beth wyt ti'n ffeindio'n anodd?

Atodiad 2 - Llythyr Caniatâd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Ynglŷn â: TAR Cynradd (gyda SAC); caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion - School Development and Pupil Progress' (M6X02151-C) (M7X02153-C)

Annwyl Fentor Dosbarth/Uwch Fentor,

Y mae gofyn i hyfforddeion, ar gyfer modwl 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion' y Brifysgol, nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle y maen nhw wedi'u lleoli sy'n dangos cyrhaeddiad canolig, ac yn ystod eu PAP, archwilio'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith a mathemateg. Gallai'r math hwn o archwilio gynnwys:

- arsyllu;
- gofyn i'r dysgwr i enwi mannau /pethau sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg;
- trafod yr hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith /mathemateg a sut y mae'n teimlo am y meysydd hynny gyda'r disgybl a'r/ neu'r athro;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywfaint am ddysgu iaith a mathemateg y dysgwr.

Dylai ymgymryd â'r gwaith hwn gynorthwyo hyfforddeion i ddeall sut mae plant yn dysgu a sut y gallant hwythau ddatblygu eu haddysgu er mwyn sicrhau dysgu effeithiol. Disgwylir i hyfforddeion ymgymryd â'r gwaith hwn yn annibynnol, a rhoddwyd iddynt ganllawiau moesegol llym i'w dilyn, er, hyd y rhagwelwn, byddai gwneud y gwaith uchod yn cyd-fynd ag arfer dyddiol arferol y dosbarth. Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enw'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau

Gofynnwyd i fyfyrwyr:
1. Ofyn am ganiatâd i wneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr)
2. Ddarparu tystiolaeth sy'n cadarnhau bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Byddem felly yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau eich bod wedi gofyn am ganiatâd ac wedi ymgymryd â'r tasgau archwilio drwy lofnodi isod.


ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
RICHARD THOMAS

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA): YGG BRYN Y MÔR

ENW'R UWCH FENTOR/ MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
ALED MORGAN

1

Atodiad 3 – Gwaith Llythrennedd – Ffeithiau anifeiliaid



Atodiad 4 – Gwaith Llythrennedd – Cwestiynau am y goedwig



y Goedwig Wyllt



Hoffwn wybod ...

Ble mae anifeiliad yn cael ei eni?
Beth ydy'r enw goedwig?
Sut ydy adwiingen gallu neudio adeil?
Sut ydy mochyn dear yn gallu gweld yn y nôs?
Oes na pond yn y goedwig Wyllt?
Both ydy'r tymhoredd fel yn y goedwig Wyllt?
Ble ydy'r anyfeiliad byw?
Pam oes na anifeiliad yn y goedwig Wyllt?
Pa good sydd y mwyaf yllel?
Pam ydy adar hedfan?
ydy yr goedwig Wyllt yn beryglus?
Pam ydy pople yn tory'r goeden yn goedwig?
Pam ydy'r Amason o'r enw Amason?
Pam ydy hun aderyn hymian yn gyflym?

Atodiad 5a – Gwaith iaith – paratoi ar gyfer cerdd

Disgrifio goedwig

Ansoddeiriau (sawl sillaf?)		*Geiriau odli*	
ofnys	2	Plant	bant
Anyfeiliaid	4	wow	pow
oer	1	glas	cas
Mysilod	3	un	llyn
bloddyn	2	dysgu	cysgu
planhigion	3	cam	jam
pysgod	2	un	llyn
adar	2	cant	plant
afyr	2	heulwen	darllen
dir	1	gwyllt an	hedfan

Atodiad 5b – Gwaith Llythrennedd – Cerdd 1

Meini Prawf Llwyddiant

Er mwyn llwyddo yn y dasg hon mae angen i mi...

	Fi	Athro
defnyddio geiriau sy'n odli	✓	✓
defnyddio ansoddeiriau	✓	✓
defnyddio sillafau cyson	✓	✓

Es i am dro heddiw,

a beth welais i?

Gwelais mochyn bach yn llun ✓ ond roedd rhaid tynnu llun ☺

A blodyn hardd a cant o blant.

Roedd adar hedfan yn yr awyr,

A anifeiliaid mawr ar y llawr,

Roedd teigr cath a'i ddant ofnus i'w weld a lledy mynd


A pysgod dawel! Planigan. Oedd na plant.

Ble es i heddiw tybed?

I'r goedwig wyllt wrth gwrs!

* Defnyddio mwy o ansoddeiriau!

Atodiad 5c – Gwaith Llythrennedd – Cerdd 2


Coeden calonnau.
Oh dawel mae na dwsinau!
Edrych fyna mae na Robin bach!
Dewch gyda fi ac gweld mwy.
Wiwerod gwych yn dringo coedau hir.
Iâr fach yr haf yn hedfan.
Gorila ofnadwy yn dringo!

* Cerdd ddiddorol, beth am gerdd nesa?

• dringo

Friday May 17th

Aim: To write character descriptions.

Success Criteria


To succeed in this task I must...

	Me	Teacher
Use capital letters for names of people and places	✓	✓
Use full stops	✓	✓
Include Wow Words	✓	✓
Vary my openers	✓	✓
Include conjunctions	✓	✓
Include exclamation marks	✓	✓

Spiker

Aaunt Sponge and aunt Spicker Where wer
James's two Aaunts. They Whre horrale horrible
brats! Aaunt Spicker Was as thin as a
book! And When She Was excited or
Scared litte flacks of spit ~~Wold~~
Would come out of her Mauth
When She Spocke. And Aunt Sponge
Was as fat as a Mountin!
She Was as horrale as Aunt
Spicker! And Aunt Sponge had
pigy eyes. They both lived on
a top of a hill followed
by James! He Was a lovely
litte boy With blond hair
and Worked erry day because
Aunt Sponge and Spicker told
him so and if he didnt
do it he Wold go
to the Sale With the
Rats for a wek!
Poor James.

Atodiad 7a – Gwaith Mathemateg – Dosrannu ac adio




Adio


Nod: Dosrannu ac adio

1. 22 + 23 = 45 ✓
   20 + 20 = 40 ✓
   2 + 3 = 5 ✓
2. 48 + 21 = 79 ✓
   40 + 20 = 70
   8 + 1 = 9
3. 67 + 22 = 89 ✓
   60 + 20 = 80 ✓
   7 + 2 = 9 ✓
4. 48 + 24 = 72 ✓
   40 + 20 = 60 ✓
   8 + 4 = 12 ✓
5. 36 + 55 = 91 ✓
   30 + 50 = 80 ✓
   6 + 5 = 11 ✓
6. 84 + 28 = 102
   80 + 20 = 90
   4 + 8 = 12 ✓


Atodiad 7b - Gwaith Mathemateg - Adio gyda cholofnau




Atodiad 8a – Gwaith Mathemateg – Ffracsiynau 1



Atodiad 8b – Gwaith Mathemateg – Ffracsiynau 2



Atodiad 9 – Gwaith Mathemateg – Newid o ddarnau arian



15/05/18

Nod: I ddarganfod newid o wahanol ddarnau arian

Rydw i'n mynd i'r siop gyda £ 1.00

Rydw i'n prynu bara am 31c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 69c ✓

Rydw i'n prynu diod am 43c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 67c.

Rydw i'n prynu bisgedi am 54c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 46c ✓

Rydw i'n prynu 3 banana am 62c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 38c ✓

Rydw i'n prynu 4 oren am 75c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 25c ✓

Rydw i'n prynu tegan am 88c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 12c ✓

Rydw i'n prynu afalau am 96c. Faint o newid ydw i'n ei gael? 4c ✓

Rydw i'n mynd i'r siop gyda £ 2.00

Rydw i'n prynu bara am £ 1.10
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.90.

Rydw i'n prynu bisgedi am £ 1.23
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.87.

Rydw i'n prynu 5 banana am £ 1.32
aint o newid ydw i'n ei gael? £1.78.

Rydw i'n prynu 6 oren am £ 1.47
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.63.

Rydw i'n prynu losin am £ 1.58
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.52.

Rydw i'n prynu tegan am £ 1.66
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.44.

Rydw i'n prynu llyfr am £ 1.89
Faint o newid ydw i'n ei gael? £1.21.

* Ymdrech dda [redacted]. Bydd rhaid addysgu punnoedd dydd. RT

Dydd Gwener Mai 18ed

Nod: Dehongli gwybodaeth o amserlen.

	Trên A	Trên B	Trên C
Llundain	10:20am	11:30am	4:40pm
Caerdydd	12:20pm	12:30am	6:00pm
Abertawe	12:40pm	1:10pm	6:30pm
Drenewydd	1:20pm	1:55pm	5:15pm
Aberystwyth	2:25pm	2:40pm	

1. Mae trên B yn cymryd 1 awr i fynd o Lundain i Gaerdydd. Faint o'r gloch wnewch chi gyrraedd Caerdydd?

12:30pm

2. Faint o amser mae trên A yn ei gymryd?

2 awr • 10:20 am → 2:25 pm ?


3. Rydych angen bod yn Drenewydd am 1:30pm. Pa drên yw'r un gorau i fynd arni?

Abertawe B •


4. Mae trên C yn cymryd cyfanswm o 3 awr, pa amser fydd y trên yn Aberystwyth?

7:40

Atodiad 11a – Gwaith Mathemateg – Siapiau a Diagram Carroll



Atodiad 11b – Gwaith Mathemateg – Tablau a Diagram Carroll




	eilrif	odrif
tabl 5	10 50 40 ✓ 20 30	5 15 ✓ 25
dim yn tabl 5	8 36 ✓	41 23 33 47 ✓

2, 5, 8, 10, 15, 20, 23, 25, 30, 33, 36, 40, 44, 47, 50

* Da iawn [redacted] (RT)

Atodiad 11c – Gwaith Mathemateg – Siapiau rheolaidd ac afreolaidd



Atodiad 12 – Wal Geirio Gwych/Big Write yn y dosbarth

